# Y CYNGOR

**Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd am 13.00 ar 09 GORFFENNAF 2021, trwy Zoom.**

Yn bresennol: Dr Emyr Roberts, Cadeirydd y Cyngor (yn y Gadair); y Gwir Anrhydeddus Elfyn Llwyd, Dirprwy Gadeirydd y Cyngor (heblaw am gofnod 87); Yr Athro Elizabeth Treasure, Is-Ganghellor; Yr Athro Tim Woods, Dirprwy Is-Ganghellor (Dysgu, Addysgu a Phrofiad y Myfyrwyr); Mr George Ashworth; Ms Kate Eden; Ms Mared Edwards, Llywydd UMCA; Ms Meri Huws; Dr Louise Marshall; Ms Sabina O'Donoghue, Llywydd UMAber; Ms Rhuanedd Richards; Ms Fiona Sharp; Mr Mark Tweed; Ms Kath Williams; Dr William Williams; Yr Athro Syr Robin Williams; a'r Athro Reyer Zwiggelaar.

Yn gweinyddu: Mr Stephen Forster, Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol; Ms Jean Jones, Pennaeth Swyddfa'r Is-Ganghellor; Ms Trish McGrath, Prif Swyddog Gweithredol Undeb Myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth; Mr Geraint Pugh, Ysgrifennydd y Brifysgol; Mr Steve Thomas, Pennaeth Cyfathrebu a Materion Cyhoeddus; Dr Rhodri Llwyd Morgan, Cyfarwyddwr y Gymraeg a Chysylltiadau Allanol (ar gyfer cofnodion 83 ac 84); a Mr Jim O'Rourke, Rheolwr Prosiect yr Hen Goleg (ar gyfer cofnod 83).

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth Ms Samantha Blackie.

## 72. MATERION A GODWYD GAN Y CADEIRYDD

1. Croeso

   1. Roedd Sabina O'Donoghue, Llywydd Undeb Myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth (UMAber); a Mared Edwards, Llywydd UMCA, wedi cychwyn eu cyfnod yn swyddogion sabothol, ac felly yn aelodau o Gyngor y Brifysgol, ers 01 Gorffennaf 2021. Wrth eu croesawu i'r corff llywodraethu, mynegodd yr aelodau hefyd eu diolch am y cyfraniad a wnaed i'r Cyngor gan eu rhagflaenwyr, Nathaniel Pidcock a Morgan Lewis, a ddaeth i ben eu cyfnod ar 30 Mehefin 2021.

   2. Croesawyd Trish McGrath, Prif Swyddog Gweithredol UMAber, yn sylwedydd i gyfarfod y Cyngor. Dywedwyd wrth yr aelodau iddi fod yn arsylwi ar y cylch cyfredol o gyfarfodydd er mwyn cynorthwyo Llywyddion newydd UMCA ac UMAber.

2. Cydymdeimlad

   Mynegwyd cydymdeimlad yn dilyn marw'r canlynol:

   1. Yr Arglwydd Elystan Morgan, a wasanaethodd yn Llywydd y Brifysgol a Chadeirydd y Cyngor rhwng 1997 a 2007;

   2. Geoffrey Brown, cyn-Ddarlithydd yn yr Adran Addysg;

   3. Mike Keen, cyn-Ddarllenydd yn yr Adran Astudiaethau Gwybodaeth;

4. Gareth Pierce, cyn-fyfyriwr, ac yn fwy diweddar Cadeirydd Bwrdd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol;

5. Leontia Slay, cyn Fiolegydd Môr ac aelod o'r Adran Swoleg;

6. Christoffer Svendsen, myfyriwr ôl-raddedig yn yr Adran Mathemateg; a

7. Yr Athro Emeritws Dennis Thomas, gynt o'r Ysgol Rheolaeth a Busnes.

3. Ymweliad Sefydliadol Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC)

1. Y diwrnod cynt, roedd Cyngor CCAUC wedi cynnal ei ymweliad tair blynedd â'r Brifysgol. Y cynllun gwreiddiol oedd cynnal yr ymweliad ym mis Gorffennaf 2020, ond cafodd ei ohirio oherwydd pandemig COVID-19. Oherwydd y cyfyngiadau sydd yn dal i fod mewn grym, cynhaliwyd yr Ymweliad Sefydliadol yn rhithiol.

2. Roedd yr aelodau o'r farn bod yr Ymweliad Sefydliadol wedi mynd yn dda a llongyfarchwyd yr Is-Ganghellor a chydweithwyr ar eu paratoadau - yn cynnwys safon uchel y cyflwyniad fideo. Nododd yr aelodau sylw CCAUC ynghylch y canfyddiad bod diffyg amrywiaeth yn y fideo, ac esboniodd yr Is-Ganghellor mai diffyg amlygrwydd ydoedd yn fwy na diffyg sylw. Byddai copi o'r fideo'n cael ei ddarparu ar SharePoint er mwyn cyfeirio ato yn y dyfodol, ac awgrymwyd y dylid paratoi fersiwn i'r staff yn gyffredinol gael ei weld.

3. Ers yr ymweliad, roedd Cadeirydd Cyngor CCAUC wedi cysylltu â Chadeirydd y Cyngor a'r Is-Ganghellor i ddiolch i'r Brifysgol am hwyluso'r ymweliad, a chytunodd yr aelodau fod y Cyngor Cyllido yn ymddangos fel petaent yn fodlon â'r hyn a drafodwyd.

4. Sesiynau gwybodaeth anffurfiol

Cyn y cyfarfod ffurfiol cynhaliwyd sesiynau gwybodaeth anffurfiol i aelodau'r Cyngor. Arweiniwyd y sesiynau hyn gan yr Athro Michael Woods ar ei ymchwil i effaith COVID-19 ar y Gymru wledig; a chan yr Athro Milja Kurki ar ei hymchwil i wleidyddiaeth blanedol. Byddai copïau o'r ddau gyflwyniad ar gael trwy SharePoint [**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol].

5. Dull Cynnal y Cyfarfod

Er mwyn cynnal cyfarfod effeithiol ar-lein, gofynnwyd i aelodau roi rhybudd ymlaen llaw pe byddent yn dymuno trafod eitem a nodwyd â seren ar yr agenda. Ni wnaed cais, a byddai'r eitemau dan sylw felly'n cael eu cymeradwyo neu eu nodi yn unol â'r argymhelliad a nodwyd ar y flaenddalen.

**73. GWRTHDARO BUDDIANNAU**

NODWYD

Ni chafwyd datganiad ynglŷn â gwrthdaro buddiannau yng nghyswllt y materion i'w hystyried yn ystod y cyfarfod.

**74. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

DERBYNIWYD

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Mai 2021 (COU2021-135).

**PENDERFYNWYD**

Cadarnhau bod y cofnodion yn gywir.

**75. MATERION YN CODI O'R COFNODION**

DERBYNIWYD

Cofnodydd yn nodi'r cynnydd a wnaed wrth symud yn eu blaen y penderfyniadau a'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt yng nghyfarfod diweddaraf y Cyngor, ac unrhyw gamau na chawsant eu cyflawni o gyfarfodydd blaenorol (COU2021-136).

NODWYD

Y diweddariadau a roddwyd yn y cofnodydd penderfyniadau.

**76. PENDERFYNIADAU A WNAED RHWNG CYFARFODYDD**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol (COU2021-137).

NODWYD

1. Manylai'r adroddiad ar yr adegau ers cyfarfod diwethaf y Cyngor pan gafodd materion eu cymeradwyo gan y Cadeirydd ar ran y Cyngor.

2. Cymeradwywyd y canlynol gan y Cadeirydd ar ran y Cyngor:

    1. <u>Gwaredu Asedau nad oes eu Hangen</u>

        Roedd y Cadeirydd wedi cymeradwyo gwaredu 'Cae Pidgeon', a oedd wedi cael ei hepgor ar gam o'r rhestr o asedau nad oes eu hangen yr oedd y Cyngor eisoes wedi cymeradwyo eu gwaredu.

    2. <u>Prosiect Ymchwil</u>

        Roedd y Cadeirydd wedi cymeradwyo cyflwyno cais am gyllid ymchwil lle byddai'r cynnig yn golygu colled o'i gymharu â'r Costiad Economaidd Llawn, er na fyddai colled ariannol wirioneddol i'r sefydliad.

    3. <u>Les ar Siambrau'r Orsaf</u>

        Ar argymhelliad y Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad (A&Ph), roedd y Cadeirydd wedi cymeradwyo cynnig i'r Brifysgol ymrwymo i les tair blynedd am eiddo yn Siambrau'r Orsaf, Aberystwyth.

    4. <u>Cynllun Ffioedd a Mynediad 2021-22</u>

        Ar gais CCAUC, roedd y Cadeirydd wedi cymeradwyo mân ddiwygiadau i Gynllun Ffioedd a Mynediad y Brifysgol ar gyfer 2021-22.

## 77. GOHEBIAETH

1. Adolygiad Sicrwydd y Sefydliad: Ansawdd a Phrofiad y Myfyrwyr

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol, yn ymgorffori adroddiad gan CCAUC ar Ymweliad Sicrhau Ansawdd Tair Blynedd Ebrill 2021 (COU2021-138).

NODWYD

1. Mae swyddogion CCAUC yn cynnal ymweliadau sicrhau ansawdd bob tair blynedd â phrifysgolion yng Nghymru. Cynhaliwyd yr ymweliad diwethaf o'r fath â'r Brifysgol yn rhithiol ar 30 Ebrill 2021, pan gafodd swyddogion CCAUC gyfarfodydd ag amrywiol gynrychiolwyr, gan gynnwys Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd y Cyngor, a'r myfyrwyr sy'n aelodau o'r Cyngor.

2. Ar 18 Mehefin 2021, cyhoeddodd y Cyngor Cyllido ei adroddiad ar yr ymweliad tair blynedd, a oedd yn cadarnhau bod prosesau addas ar waith i roi sicrwydd ynghylch ansawdd a phrofiad y myfyrwyr.

3. Er hynny, gwnaed ambell argymhelliad yn adroddiad y Cyngor Cyllido. Gan fod yr argymhellion hyn yn debygol o fod yn berthnasol i'r Adolygiad Gwella Ansawdd arfaethedig yn y Brifysgol - y disgwylid y byddai'n cael ei gynnal ym mis Ebrill 2022 - roedd y Dirprwy Is-Ganghellor (Dysgu, Addysgu a Phrofiad y Myfyrwyr) yn datblygu cynllun gweithredu a fyddai'n cael ei gyflwyno trwy gyfrwng y Bwrdd Academaidd.

4. Byddai copi o'r cynllun gweithredu hwn hefyd yn cael ei gyflwyno i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Llywodraethu a Chydymffurfio (Ll&Ch) [**GWEITHREDU:** Dirprwy Is-Ganghellor (Dysgu, Addysgu a Phrofiad y Myfyrwyr)].

## 78. ADRODDIAD YR IS-GANGHELLOR

DERBYNIWYD

Adroddiad gan yr Is-Ganghellor (COU2021-139).

NODWYD

1. Roedd pedair prif adran i'r adroddiad: adroddiad uchafbwyntiau; adroddiad o'r Senedd; adroddiad cynllunio a chofrestriadau myfyrwyr; ac adroddiad ynglŷn â chyfathrebiadau.

2. Ar 30 Mehefin 2021, roedd Llywodraeth Cymru wedi rhyddhau datganiad ynghylch sut y gallai sefydliadau gynllunio am addysgu wyneb yn wyneb yn y flwyddyn academaidd newydd. Yr egwyddor a oedd yn arwain hyn oedd symud tuag at sefyllfa o weithredu mor arferol â phosibl yn yr hydref, gyda'r dysgu a'r addysgu mewn prifysgolion yn cyd-fynd â'r hyn y gallai pobl ei wneud yn y gymdeithas yn ehangach.

3. Roedd y Brifysgol yn awr yn cynllunio ar gyfer y tymor newydd ar sail y canllawiau diwygiedig hyn. Roedd y paratoadau perthnasol yn cynnwys adolygiad o'r trefniadau awyru ar gyfer yr holl ystafelloedd dysgu er mwyn cadarnhau unrhyw fesurau priodol, neu dynnu ystafell oddi ar yr amserlen ddysgu os na ellir sicrhau awyru priodol.

4. Ar 29 Mehefin 2021, roedd Addysg a Gwella Iechyd Cymru (HEIW) wedi cyhoeddi bod cais y Brifysgol i ddarparu addysg nyrsio o fis Medi 2022 wedi bod yn llwyddiannus. Llongyfarchodd yr aelodau Bennaeth Addysg Gofal Iechyd y Brifysgol, Sally Hoare, a'i thîm am y gwaith caled a oedd wedi arwain at y canlyniad llwyddiannus hwn.

5. Yn ystod misoedd Mai a Mehefin 2021, cynhaliwyd arolwg o'r staff. Er bod Gweithrediaeth y Brifysgol wedi cael canlyniadau cyffredinol ers hynny, roedd dadansoddiadau pellach wrthi'n cael eu cynnal. Byddai'r canlyniadau'n cael eu rhannu â'r Cyngor yn ystod y dyddiau cwrdd i ffwrdd ar 20 a 21 Medi 2021.

6. Roedd nifer y ceisiadau i gael mynediad ym mis Medi 2021 ar eu huchaf ers 2015, ac roedd y Brifysgol yn gweld cynnydd hefyd yn nifer y derbyniadau cadarn. Serch hynny, roedd perygl yn parhau na fyddai cyfran fawr o ymgeiswyr rhyngwladol yn cofrestru oherwydd y pandemig presennol. Roedd y Brifysgol yn dal i weithio gyda sefydliadau cyfatebol yn y sector ar ddull cyffredin i groesawu myfyrwyr o wledydd ar y 'rhestr goch' sy'n dymuno astudio yn y DG.

7. Roedd Llywodraeth San Steffan wedi cyhoeddi'n ddiweddar y byddai cyllid ymchwil trwy'r Gronfa Ymchwil Heriau Byd-eang (GCRF) a Chronfa Newton yn cael ei dorri'n sylweddol o ganlyniad i doriadau i'r gyllideb cymorth tramor. Trafodwyd y goblygiadau o ran yr ymchwil a wneir gan y Brifysgol â chefnogaeth y cronfeydd hyn.

8. Yn dilyn y sesiwn ar 15 Ebrill 2021 ar apêl ariannol yr Hen Goleg, roedd taflen ac arni'r negeseuon allweddol wedi cael ei pharatoi i aelodau'r Cyngor. Atodwyd copi i'r adroddiad, a byddai'n cael ei ddosbarthu ar wahân i'r aelodau yn dilyn y cyfarfod [**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol].

**79. DIWEDDARIAD IECHYD A DIOGELWCH**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Rheolwr Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd (COU2021-140).

NODWYD

Roedd yr adroddiad yn crynhoi'r manylion diweddaraf am weithgaredd iechyd a diogelwch, gan grybwyll agweddau ar yr adroddiad llawnach a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Llywodraethu a Chydymffurfio (Ll&Ch) ar 17 Mehefin 2021.

**80. ADRODDIAD GAN UNDEB MYFYRWYR PRIFYSGOL ABERYSTWYTH**

NODWYD

Roedd y swyddogion sabothol newydd wedi dechrau yn eu swyddi ers 01 Gorffennaf 2021, ac ers hynny roeddent wedi bod yn cymryd rhan mewn gweithgareddau gwaith tîm ac yn dysgu am eu swyddi. Er nad oedd y myfyrwyr sy'n aelodau o'r Cyngor wedi cytuno ar eu blaenoriaethau unigol ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod eto, rhoddwyd gwybod i'r aelodau bod iechyd meddwl myfyrwyr a sicrhau cydbwysedd priodol rhwng dysgu wyneb yn wyneb a dysgu rhithiol yn debygol o gael eu cynnwys ymhlith y blaenoriaethau allweddol.

**81. DIWEDDARIAD ARIANNOL**

1. Cyfrifon Rheoli

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Dirprwy Gyfarwyddwr Cyllid (COU2021-142).

NODWYD

1. Roedd yr adroddiad yn cyflwyno perfformiad ariannol y Brifysgol tan ddiwedd Mis 10 (31 Mai 2021). Rhagwelid gwell sefyllfa o ran y diffyg ar ddiwedd y flwyddyn o'i gymharu â'r gyllideb a gymeradwywyd ar gyfer y Brifysgol ar gyfer 2020-21. Nid oedd y sefyllfa wedi newid ers adroddiad Chwarter 3 (30 Ebrill 2021) a ystyriwyd yn y Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad ar 17 Mehefin 2021.

2. Crybwyllodd un aelod symudiadau o ran costau gwasanaethau cymorth canolog. Roedd y rhain yn ymwneud yn gyfan gwbl, bron, â chostau a grantiau COVID-19, a byddai rhagor o fanylion yn cael eu hanfon at yr aelod o'r Cyngor wedi'r cyfarfod [**GWEITHREDU:** Y Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol].

2. <u>Cyllideb 2021-22, a rhagolygon ariannol am flynyddoedd pellach ymlaen hyd at 2025-26.</u>

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Dirprwy Gyfarwyddwr Cyllid, yn ymgorffori'r gyllideb ddrafft ar gyfer 2021–22 (COU2021-143).

NODWYD

1. Roedd y Gyllideb ddrafft ar gyfer 2021-22, a'r rhagolygon o'r perfformiad ariannol hyd 2025-26, yn dangos bwriad i ddychwelyd i sefyllfa o warged ym mhob blwyddyn ariannol, gan gyd-fynd â'r cyfeiriad a roddwyd gan aelodau'r Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad ar 23 Ebrill 2021. Byddai strategaethau sylfaenol y Brifysgol o gynyddu poblogaeth y myfyrwyr, ynghyd â rheolaeth ofalus ar y sylfaen costau a'r risgiau, yn sail i'r gwelliant hwn o ran y perfformiad ariannol.

2. Er y bernid bod hon yn gyllideb realistig a darbodus, byddai angen gwelliant sylweddol o ran y perfformiad ariannol o'i gymharu â'r flwyddyn bresennol er mwyn creu'r gwarged bychan a oedd yn cael ei ragweld ar gyfer 2021-22. Byddai angen disgyblaeth ariannol sylweddol, felly, yn ystod y flwyddyn.

3. I gytuno ar fantoli'r gyllideb ar gyfer 2021-22, byddai angen i'r Brifysgol beidio â buddsoddi mewn mentrau i hybu gweithgaredd ymchwil. Mynegodd yr Is-Ganghellor ei siom â'r sefyllfa hon oherwydd bod mantoli cyllideb a thwf ymchwil ill dau yn amcanion strategol pwysig. Fodd bynnag, wrth argymell bod y Cyngor yn cymeradwyo'r gyllideb fel y'i cynigiwyd, yn eu cyfarfod ar 17 Mehefin 2021 gofynnodd aelodau'r Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad hefyd i bob ymdrech gael ei gwneud yn ystod 2021-22 i ganfod cyllid tuag at fentrau i gefnogi a hyrwyddo gweithgaredd ymchwil.

**PENDERFYNWYD**

4. Cymeradwyo cyllideb 2021-22 a nodi'r rhagolygon ariannol am flynyddoedd pellach ymlaen hyd at 2025-26 [**GWEITHREDU:** Dirprwy Gyfarwyddwr Cyllid].

3. <u>Fferm Solar Fferm Penglais</u>

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Cynghorydd Cynaliadwyedd (COU2021-144).

NODWYD

1. Yng nghyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 19 Mawrth 2021, roedd yr aelodau wedi cymeradwyo cais am fenthyciad Salix di-log, a hynny'n bennaf i gyllido costau cyfalaf y fferm solar arfaethedig ger Fferm Penglais.

2. Yn sgil costau oedd yn newid yn chwim ac argaeledd cydrannau a deunyddiau yn y gadwyn gyflenwi, roedd y contractwr wedi adolygu eu prisio a'u rhaglen. Roedd yr achos busnes diwygiedig ar gyfer y prosiect yn cynyddu'r swm yr oedd angen ei fenthyca o gynllun Salix uwchlaw'r terfyn a gymeradwywyd yn flaenorol gan y Cyngor. Roedd yr achos busnes diwygiedig a'r ystyriaethau allweddol wedi eu nodi yn yr adroddiad.

**PENDERFYNWYD**

3. Cymeradwyo cais am fenthyciad pellach o £125k dan gynllun Salix i gyllido costau cyfalaf uwch y fferm solar, yn amodol ar gytundeb y Cyngor Cyllido [**GWEITHREDU:** Cynghorwr Cynaliadwyedd].

4. Bod diweddariad yn cael ei roi i un o gyfarfodydd y Cyngor yn y dyfodol ar waith i ddiwygio Strategaeth Rheoli Carbon y Brifysgol [**GWEITHREDU:** Cynghorwr Cynaliadwyedd].

## 82. MATERION STRATEGOL

1. Y Strategaeth Ddigidol

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Gwybodaeth, yn ymgorffori Strategaeth Ddigidol ddrafft (COU2021-146).

NODWYD

1. Roedd y strategaeth ddrafft yn amlinellu gweledigaeth ar gyfer mabwysiadu dull gweithredu digidol ledled y Brifysgol. Roedd cyfres o seiliau trawsbynciol a cholofnau gweithredol penodol yn cael eu hamlinellu yn y strategaeth ddrafft, a oedd wedi'i chynllunio hefyd i ategu'r is-strategaethau Ystadau a Phobl.

2. Byddai'r broses o roi'r strategaeth ddrafft ar waith yn cael ei chyflwyno'n raddol dros gyfnod o dair i bum mlynedd gan ddibynnu ar yr adnoddau a fydd ar gael. Er bod Gweithrediaeth y Brifysgol wedi ystyried fersiwn gychwynnol o gynllun gweithredol drafft i roi'r strategaeth ar waith, roedd angen rhagor o waith i ganfod beth fyddai'r costau perthnasol. Disgwylid y byddai'r cyllid angenrheidiol yn cael ei gymeradwyo yn rhan o ddyraniadau cyllid cyfalaf mewn cyllidebau yn y dyfodol.

3. Trafododd yr aelodau y strategaeth arfaethedig, ac yn enwedig sut y gellid penderfynu ar ddull gweithredu cyfun priodol sy'n diwallu gwahanol ofynion a

disgwyliadau'r myfyrwyr. Cytunwyd y byddai'n hanfodol cael adborth rheolaidd gan fyfyrwyr yn rhan o'r broses o roi'r strategaeth arfaethedig ar waith.

4. Ystyriwyd y strategaeth ddrafft yng nghyfarfod y Pwyllgor A&Ph a gynhaliwyd ar 17 Mehefin 2021, ac argymhellodd yr aelodau bryd hynny y dylai'r Cyngor ei chymeradwyo.

**PENDERFYNWYD**

5. Cymeradwyo drafft y Strategaeth Ddigidol [**GWEITHREDU:** Cyfarwyddwr Gwasanaethau Gwybodaeth].

2. <u>Dangosyddion Perfformiad Allweddol</u>

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Pennaeth Cynllunio (COU2021-147).

NODWYD

Roedd yr adroddiad yn cyflwyno perfformiad y sefydliad ar 30 Ebrill 2021 yng nghyswllt y Dangosyddion Perfformiad Allweddol y cytunodd y Cyngor arnynt i fonitro'r gwaith o gyflwyno Cynllun Strategol y sefydliad.

**83. YR HEN GOLEG**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Gyfarwyddwr y Gymraeg a Chysylltiadau Allanol (COU2021-148).

NODWYD

1. Rhoddai'r adroddiad ddiweddariad ar gynnydd y prosiect, gan roi sylw arbennig i: gwmpas ac amserlen y prosiect; yr amcan diweddaraf o gostau'r prosiect; sefyllfa'r cyllid cyfatebol ar hyn o bryd; ac oblygiadau ariannol peidio â pharhau â'r prosiect. Rhoddwyd gwybodaeth hefyd am gais am gyllid Cronfa Codi'r Gwastad, a gwerthusiad opsiynau ynghylch y modd y gellid defnyddio'r cyllid hwn pe byddai'r cais yn un llwyddiannus.

2. Yn rhan o'r ymdrechion i ddatrys y diffyg cyfredol mewn cyllid cyfalaf i'r prosiect, bu'r Brifysgol yn trafod â Chronfa Dreftadaeth y Loteri, a oedd yn ddiweddar wedi cadarnhau cyllid ychwanegol tuag at y cynnydd yn y costau.

3. Roedd y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno tendrau gan gwmnïau oedd eisiau gwneud cais am y gwaith adeiladu wedi bod, a hynny am 09:00 ar fore cyfarfod y Cyngor. Dim ond un cais o'r fath a gafwyd, gan fod yr unig gynigydd arall a oedd yn weddill yn y broses wedi mynd i ddwylo'r gweinyddwyr y diwrnod cynt. Roedd cynghorwyr proffesiynol y Brifysgol yn awr yn dadansoddi'r cynnig a gafwyd ar sail amcangyfrif y sefydliad ei hun o'r costau.

4. Trafododd yr aelodau'r ffaith mai dim ond un tendr a gafwyd ac yr oedd arnynt eisiau sicrwydd ynghylch y ffaith y byddai'n dal i fod yn bosibl sicrhau gwerth am arian ar gyfer y prosiect, y byddai'r broses gaffael yn dal i gydymffurfio pe byddai'r Brifysgol yn trafod ymhellach ag un cynigydd, ac y byddai'r arianwyr allanol yn fodlon â dull o'r fath.

5. Rhoddodd Rheolwr y Prosiect sicrwydd i'r Cyngor y gallai'r sefydliad, wrth gydnabod y cwmni a oedd yn weddill fel y cynigydd a ffefrir, ddechrau negodi a thrafod peiriannu gwerth â'r cynigydd hwnnw. Fodd bynnag, byddai angen penderfyniad ar wahân gan y Cyngor er mwyn dyfarnu unrhyw gontract.

6. Roedd cyfarfodydd arbennig o'r Pwyllgor A&Ph a'r Cyngor wedi cael eu trefnu ar gyfer 26 Gorffennaf a 02 Awst 2021 i ystyried y cynnig a gafwyd ymhellach. Byddai canlyniad y dadansoddiad yr oedd cynghorwyr proffesiynol y Brifysgol yn ei gynnal ar hyn o bryd yn cael ei roi i'r cyfarfodydd hynny.

7. Roedd fersiwn gynharach o adroddiad Cyfarwyddwr y Gymraeg a Chysylltiadau Allanol wedi cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor A&Ph ar 17 Mehefin 2021, pan fu'r aelodau'n ystyried gwerthusiad o'r ddau opsiwn y gellid bwrw ymlaen â hwy pe byddai'r Brifysgol yn llwyddo i gael cyllid o Gronfa Codi'r Gwastad yn sgil cais sy'n cael ei gydlynu gan Gyngor Sir Ceredigion.

8. Yn y cyfarfod hwnnw o'r Pwyllgor A&Ph, roedd yr aelodau wedi cymeradwyo cyflwyno cais am grant i'r Gronfa Codi'r Gwastad o safbwynt 'Opsiwn A', ar y ddealltwriaeth nad oes angen i'r Brifysgol wneud unrhyw gyfraniad ariannol tuag at yr opsiwn hwn. Byddai'r gwaith diwydrwydd dyladwy cysylltiedig yn cael ei gynnal yn awr.

**PENDERFYNWYD**

9. Cydnabod yr unig gynigydd yn y broses dendro ar gyfer y gwaith adeiladu ar brosiect yr Hen Goleg fel y 'cynigydd a ffefrir', yn amodol ar gael cyngor cyfreithiol i sicrhau bod hynny'n dal i gydymffurfio â'r gofynion caffael a bod yr arianwyr allanol yn fodlon â'r sefyllfa [**GWEITHREDU:** Cyfarwyddwr y Gymraeg a Chysylltiadau Allanol].

## 84. PEN-BLWYDD YN 150

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Gyfarwyddwr y Gymraeg a Chysylltiadau Allanol (COU2021-149).

NODWYD

1. Yn 2022, byddai'r Brifysgol yn dathlu ei phen-blwydd yn 150. Disgrifiai'r adroddiad y digwyddiadau dathlu sy'n cael eu trefnu yn 2022-23, yr ymdrechion i gyhoeddi cyfrol ddathlu, cynlluniau brandio, a phrif gerrig milltir y Prosiect Dathlu 150.

2. Yn wreiddiol, cafodd yr adroddiad ei ystyried yn y Senedd ar 23 Mehefin 2021. Ers hynny edrychwyd eto ar amserlen y digwyddiadau dathlu er mwyn sicrhau bod y Brifysgol yn ymwneud â'i rhanddeiliaid presennol a hefyd yn ceisio cyrraedd cynulleidfa fwy amrywiol a allai fod yn llai cyfarwydd â'r sefydliad a'i weithgareddau.

3. Trafododd yr aelodau y cyfleoedd y mae'r pen-blwydd yn 150 yn eu cynnig, gan gynnwys y posibilrwydd o ddatblygu a chyfoethogi partneriaethau allanol. Byddai fersiwn arall o amserlen arfaethedig y digwyddiadau yn cael ei datblygu yn awr er mwyn ei chyflwyno yn ystod dyddiau cwrdd i ffwrdd y Cyngor ar 20 a 21 Medi 2021 [**GWEITHREDU:** Cyfarwyddwr y Gymraeg a Chysylltiadau Allanol].

## 85. CYNLLUN FFIOEDD A MYNEDIAD 2022-23

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Dirprwy Is-Ganghellor (Dysgu, Addysgu a Phrofiad y Myfyrwyr); a'r Pennaeth Datblygu Strategol (COU2021-150).

NODWYD

1. Roedd y Brifysgol wedi gorfod cyflwyno'i chais am Gynllun Ffioedd a Mynediad ar gyfer 2022-23 erbyn 18 Mehefin 2021. Mewn ymateb i'r pandemig presennol, roedd y Cyngor Cyllido wedi gofyn am set lai o gynlluniau, yn cynnwys yr elfennau statudol gofynnol, amcangyfrif o wariant ar weithgareddau'r cynllun ffioedd, a rhagolygon ariannol yn unig.

2. Roedd Cynllun Ffioedd a Mynediad arfaethedig y Brifysgol wedi cael ei adolygu a'i gymeradwyo gan Grŵp Goruchwylio'r Cynllun Ffioedd a Mynediad cyn 18 Mehefin 2021. Roedd y Grŵp hwn yn cynnwys cynrychiolaeth o blith y corff llywodraethu. Fodd bynnag, roedd gofyn yn awr i'r corff llywodraethu llawn roi cymeradwyaeth ffurfiol i'r cyflwyniad i CCAUC.

**PENDERFYNWYD**

3. Rhoi cymeradwyaeth ôl-weithredol i gais y Brifysgol ar gyfer Cynllun Ffioedd a Mynediad 2022-23 [**GWEITHREDU:** Pennaeth Datblygu Strategol].

## 86. DATGANIAD AR GANLYNIADAU GRADD

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Dirprwy Gofrestrydd Kim Bradick (COU2021-151).

NODWYD

1. Mae'n rhaid i bob Prifysgol gyhoeddi Datganiadau o Ganlyniadau Gradd. Roedd y Brifysgol wedi cymeradwyo ei Datganiad o Ganlyniadau Gradd cyntaf yng ngwanwyn 2020, gan roi data ynglŷn â 2018-19. Cafodd y Datganiad ar Ganlyniadau Gradd ei ddiwygio ers hynny i adlewyrchu'r data ar gyfer 2019-20.

2. Cafwyd cynnydd cyffredinol o 13% dros y 4 blynedd diwethaf yn nifer y graddau Dosbarth Cyntaf ac Ail Ddosbarth Uwch, ac roedd hyn wedi arwain at gwymp cyfatebol yn y graddau eraill. Gellid cynnig nifer o ffactorau i esbonio'r cynnydd hwn, gan gynnwys yr ymateb i bandemig COVID-19 gan fod llai o arholiadau a mwy o asesiadau parhaus wedi'u cynnal, a chynnydd yn nifer y myfyrwyr yn ailsefyll modiwlau i gael canlyniad gwell.

3. Nid oedd yn rhaid i sefydliadau gyhoeddi Datganiadau diwygiedig o Ganlyniadau Gradd yn flynyddol. Nid oedd yn fwriad gan sefydliadau eraill yn y sector gyhoeddi Datganiadau diwygiedig eleni oherwydd y ffordd yr oedd y mesurau a fabwysiadwyd y llynedd i ymateb i COVID-19 wedi gogwyddo'r canlyniadau. Byddai'r Brifysgol yn gwneud yr un peth.

## 87. PENODI DIRPRWY GANGHELLOR

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol (COU2021-152).

NODWYD

1. Yn draddodiadol, mae'r Brifysgol wedi penodi dau Ddirprwy Ganghellor. Yn dilyn ymgynghori â'r Canghellor, yr Arglwydd Thomas, yn gynnar yn 2021, teimlwyd ei bod yn briodol penodi ail Ddirprwy Ganghellor, i wasanaethu ochr yn ochr â'r Athro y Fonesig Elan Closs Stephens. Cafodd y Cyngor wybod am y cynnig hwn yn ei gyfarfod ar 14 Mai 2021.

2. Yn unol ag Ordinhad 2, dechreuodd y drefn o benodi Dirprwy Ganghellor ar 17 Mai 2021. Rhoddwyd disgrifiad o'r swyddogaeth ar wefan llywodraethu'r Brifysgol a'i ddosbarthu'n eang, gan wahodd enwebiadau erbyn 04 Mehefin.

3. Ar 14 Mehefin 2021, cafodd Pwyllgor Dewis ei gynnull i ystyried yr enwebiadau a ddaeth i law. Roedd yr adroddiad yn nodi'r drefn a ddilynwyd, ac yn rhoi enw'r unigolyn yr argymhellid ei benodi.

PENDERFYNWYD

4. Penodi'r Gwir Anrhydeddus Elfyn Llwyd yn Ddirprwy Ganghellor am gyfnod cychwynnol o dair blynedd, yn dechrau ar 01 Awst 2021 [**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol].

**88. MATERION LLYWODRAETHU**

1. <u>Canlyniadau holiadur hunaneffeithiolrwydd y Cyngor</u>

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol (COU2021-153).

NODWYD

1. Rhwng 24 Mai a 04 Mehefin 2021, gwahoddwyd aelodau'r Cyngor i lenwi holiadur er mwyn rhoi adborth adeiladol ynglŷn â gweithrediad y corff llywodraethu yn ystod y flwyddyn academaidd gyfredol. Roedd y canlyniadau wedi eu nodi yn yr adroddiad.

2. Roedd graddfa gyffredinol yr ymateb wedi gostwng yn sylweddol o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol ac roedd hyn yn siomedig. Er hynny, roedd yr aelodau'n ymddangos yn fodlon ar y cyfan, heb unrhyw newidiadau sylweddol i'r modd y mae'r Cyngor yn gweithredu.

2. <u>Cylchoedd Gorchwyl Pwyllgorau</u>

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol (COU2021-154).

NODWYD

1. Mewn ymateb i God Ymarfer Pwyllgor Cadeiryddion y Prifysgolion (CUC) i Bwyllgorau Archwilio mewn Addysg Uwch a gyhoeddwyd fis Mai 2020, roedd cylch gorchwyl y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd (AR&S) wedi cael ei adolygu er mwyn sicrhau ei fod yn cyd-fynd â'r cylch gorchwyl enghreifftiol a gyhoeddwyd gan CUC a'r arferion eraill a argymhellir.

2. Roedd adolygiad o'r Pwyllgor Enwebiadau wedi iddo fod yn gweithredu am flwyddyn wedi arwain at gynnig y dylid trosglwyddo'r cyfrifoldeb am argymell

penodi Ymwelydd o'r Pwyllgor Llywodraethu a Chydymffurfio i'r Pwyllgor Enwebiadau. Byddai angen newid cylch gorchwyl y ddau bwyllgor er mwyn gallu gwneud hyn.

3. Cafodd y diwygiadau arfaethedig eu hystyried gan y Pwyllgorau Ll&Ch ac AR&S yn eu cyfarfodydd ar 17 a 25 Mehefin 2021. Yn y cyfarfodydd hynny, roedd yr aelodau wedi argymell y dylai'r Cyngor gymeradwyo'r diwygiadau.

**PENDERFYNWYD**

4. Cymeradwyo'r diwygiadau a gynigiwyd i gylchoedd gorchwyl y pwyllgorau [**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol].

**89. CYTUNDEB PERTHYNAS GYDAG UMABER**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol (COU2021-155).

NODWYD

1. Mae'n amod gan y Cyngor Cyllido bod prifysgolion ac Undebau Myfyrwyr yn creu Cytundeb Perthynas, y dylid ei gymeradwyo gan Gorff Llywodraethu'r sefydliad, ei adolygu'n flynyddol mewn pryd ar gyfer y flwyddyn academaidd newydd, a'i lofnodi gan y Swyddogion Myfyrwyr sy'n dechrau yn eu swyddi.

2. Heblaw am ddiweddaru'r llofnodion, nid oedd newidiadau'n cael eu cynnig i'r Cytundeb Perthynas fel y saif ar hyn o bryd ac roedd copi wedi'i atodi wrth yr adroddiad. Ystyriwyd hwn yng nghyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu a Chydymffurfio a gynhaliwyd ar 17 Mehefin 2021, pan gymeradwyodd yr aelodau yr argymhelliad hwn.

**PENDERFYNWYD**

3. Y dylid cadw'r Cytundeb Perthynas cyfredol am y flwyddyn academaidd i ddod [**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol].

**90. EITEMAU ER GWYBODAETH**

DERBYNIWYD

Derbyniodd yr aelodau adroddiadau ar y canlynol er gwybodaeth:

1. COVID-19: Cofnod Penderfyniadau (COU2021-156);

2. Crynodeb o'r Gofrestr Risg Corfforaethol (COU2021-157);

3. Adroddiad Blynyddol ar Bartneriaethau Cydweithrediadol (COU2021-158);

4. Adroddiad Blynyddol Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol (COU2021-159);

5. Cyflwyniad blynyddol UMAber i'r Senedd (COU2021-160);

6. Crynodeb o'r cwynion a dderbyniwyd yn gysylltiedig â'r Safonau Iaith Gymraeg (COU2021-161); a

7. Dogfennau wedi'u selio â'r Sêl Gyffredin (COU2021-162).

NODWYD

8. Cynnwys yr adroddiadau a gyflwynwyd er gwybodaeth.

**91. ADRODDIADAU O IS-BWYLLGORAU**

DERBYNIWYD

Adroddiad cyfansawdd yn cynnwys cofnodion y canlynol (COU2021-163):

1. Y Pwyllgor Dewis Dirprwy Ganghellor (14 Mehefin 2021);

2. Y Pwyllgor Llywodraethu a Chydymffurfio (17 Mehefin 2021);

3. Y Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad (17 Mehefin 2021);

4. Y Senedd (23 Mehefin 2021);

5. Y Pwyllgor Buddsoddiadau (24 Mehefin 2021); a

6. Y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd (25 Mehefin 2021).

NODWYD

7. Yr adroddiadau a ddaeth o'r is-bwyllgorau.

**92. UNRHYW FATER ARALL, AROLWG O'R CYFARFOD, A BUSNES YN Y DYFODOL**

1. Ffarwelio

   Roedd sawl un o'r aelodau annibynnol yn dod i ben eu tymor ar y Cyngor ar 31 Gorffennaf 2021 a byddent yn gadael y corff llywodraethu bryd hynny. Diolchodd Cadeirydd y Cyngor i'r canlynol am eu cyfraniad sylweddol, yn unigol ac ar y cyd, i waith y corff llywodraethu a'i is-bwyllgorau dros nifer o flynyddoedd:

   1. Elfyn Llwyd, a fu'n gwasanaethu ers 01 Awst 2015, ac yn Ddirprwy Gadeirydd y Cyngor ers 01 Ionawr 2020;

   2. George Ashworth, a fu'n gwasanaethu ers 01 Awst 2015; a

   3. Samantha Blackie, a fu'n gwasanaethu ers 01 Awst 2018.

2. Cyfarfodydd nesaf

   1. Roedd yr aelodau eisoes wedi cael gwybod am Gyfarfod Arbennig o'r Cyngor a fyddai'n cael ei gynnal ar 02 Awst 2021 i ystyried y tendrau a gafwyd ar gyfer adnewyddu'r Hen Goleg.

   2. Byddai cyfarfod llawn cyntaf y Cyngor yn y flwyddyn academaidd nesaf yn cael ei gynnal yn ystod y dyddiau cwrdd i ffwrdd ar 20 a 21 Medi 2021. Pe byddai popeth yn iawn, y bwriad oedd cynnal y cyfarfod hwn wyneb yn wyneb yn y Brifysgol.